# Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel

## Enghreifftiau a gwybodaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Crynodeb i blant a phobl ifanc

# Cyflwyniad

Helô, swyddogion trwyddedu ydyn ni.
Mae yna o leiaf un ohonon ni ym mhob ardal.



Mae llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru'n cymryd rhan mewn perfformiadau ac yn y cyfryngau.



Rydyn ni eisiau ichi fwynhau perfformio a bod yn ddiogel hefyd.



Mae yna ddramâu, actio, cerddorfeydd, rhaglenni teledu, dawnsio, modelu a gweithgareddau eraill.




Mae gan Lywodraeth Cymru:

- gyfraith newydd, Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015
- canllawiau newydd, *Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel.*



Mae cymryd rhan yn gallu'ch helpu chi i ddod yn fwy hyderus a chael mwy o hunan-barch. Rydych chi'n dysgu sgiliau ac, yn aml, yn gwneud ffrindiau newydd.



Mae'n gallu bod o help os ydych chi eisiau ei ddilyn fel gyrfa rhyw ddydd.



Mae yna rai pobl sydd hyd yn oed yn cael eu talu hefyd.



Mae'r llyfryn yma'n rhoi enghreifftiau o'r math o bethau y mae cynhyrchwyr, rheolwyr a threfnwyr gweithgareddau'n gorfod delio â nhw. Mae yna nodiadau hefyd ar sut y gallwn ninnau helpu.

# Sioe gerdd yr ysgol



Helô,

Mr Martin ydw i, o Ysgol Uwchradd Monton. ’Dyn ni’n gwneud *Mamma Mia*. Mae hi’n sioe gerdd fendigedig!

’Dyn ni wedi clywed bod yna reolau newydd ar gyfer perfformiadau, felly ro’n i’n meddwl y bydden ni’n trafod pethau efo chi’n gynta’.



Waw! Mae hynna’n swnio’n wych. Be’ ’dych chi’n bwriadu ei wneud?

Mae yna dri pherfformiad – dydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn.

Mae’r ymarferion rhwng 9 a 3 o’r gloch. Yna mae’r rhan fwyaf ohonyn nhw’n mynd adre i gael te os nad ydyn nhw’n byw yn rhy bell i ffwrdd.

Rhaid iddyn nhw fod yn ôl erbyn 6 o’r gloch i fod yn barod pan fydd y llen yn codi am hanner awr wedi 7.

Cyn belled nad oes unrhyw beth yn mynd o chwith, mae’r sioe yn gorffen am hanner awr wedi 10.

Maen nhw’n cymryd tua 30 munud i newid ac i dynnu’u colur. Yna maen nhw’n barod am adre toc ar ôl 11 o’r gloch.

Iawn, a be’ ydy oedran y dysgwyr sy’n cymryd rhan?

Maen nhw i gyd rhwng 14 ac 19 oed.

Wel, Mr Martin, dydych chi **ddim** angen trwydded. Ond mae yna ambell beth i’w newid a’i wirio, gan fod gennon ni rai rheolau y mae’n rhaid ichi eu dilyn.

Mi anfona’ i restr atoch chi.



# Nodiadau i Mr Martin

**Amser**

*Beth am symud yr amser dechrau i 7 o'r gloch y nos?*

- Rhaid i bawb dan 16 oed fod wedi gadael cyn 11 o'r gloch.

**Amseroedd perfformio**

*Symudwch amser dechrau'r ymarfer i hanner dydd neu'n hwyrach.*

- Dydy plant dan 16 oed ddim yn cael perfformio nac ymarfer am fwy na phum awr y dydd.
- Dydy plant dan 16 oed ddim yn cael bod yn y man ymarfer neu berfformio am fwy na 9.5 awr i gyd.
- Mae'n rhaid i blant gael egwyl am o leiaf 12 awr dros nos.

**Cael egwyl**

*Gwnewch yn siŵr bod yna amseroedd egwyl priodol ar yr amserlen.*

- Mae angen i'r egwyl i gael pryd o fwyd fod yn 45 munud o leiaf.
- Mae angen i gyfnodau egwyl eraill fod yn 15 munud o leiaf.

**Cadw'n ddiogel**

*Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn gofalu am y plant yn iawn.*

- Allwch chi ddim gadael y rhai hŷn i ofalu am y rhai iau.

**Ystafelloedd newid merched a bechgyn**

*Defnyddiwch rota os oes angen.*

- Mae'n rhaid bod ag ystafelloedd newid ar wahân ar gyfer dysgwyr dros 16 oed.

**Polisïau a chaniatâd**

*Gwnewch yn siŵr bod eich polisïau amddiffyn plant i'r funud.*

- Rhaid cael caniatâd rhieni/gofalwyr i dynnu lluniau neu i ffilmio.

# Codi arian ar gyfer grŵp ieuenctid



Helô ’na, Cerys ydw i, o Glybiau Plant Cymru. ’Dw i wedi clywed bod yna reolau newydd a ’dw i’n gobeithio does dim rhaid inni ganslo ein drama ni!



Helô Cerys. Dyweda be’ sy’n dy boeni di.

Mae ein drama mewn tair wythnos! ’Dyn ni wedi llogi neuadd a ’dyn ni’n gobeithio gwerthu tocynnau, hufen iâ a diodydd i godi arian. Mae gan y neuadd drwydded ar gyfer hynny achos bod bar yno.

Mae hynna’n swnio’n wych. Be’ ’dych chi’n bwriadu ei wneud?

Mi fydd yna ddau berfformiad yn ystod y penwythnos. Maen nhw’n gorffen am 10 o’r gloch y nos ac mi fydd y plant i gyd wedi gadael erbyn hanner awr wedi 10. Mae yna ddigonedd o le yn y neuadd ac mae yna fannau newid ar wahân a mannau ar gyfer rhoi colur.

Mae 24 o blant yn cymryd rhan. Pob un ohonyn nhw dan 16 oed. Maen nhw’n wych! Maen nhw’n rhedeg y grŵp, yn trefnu’r ymarferion ac yn cynllunio’r cyfan. Roedd rhai ohonyn nhw’n actio yng Nghaerdydd yr wythnos ddiwetha.

Alli di ddeud mwy wrtha’ i am bwy fydd yn edrych ar ôl y plant a sut y byddan nhw’n eu cadw nhw draw o’r bar?

Mae gennon ni ddau o oedolion sy’n edrych ar ôl 12 o blant yr un.

Mae rheolwyr y neuadd wedi cytuno i gadw’r man perfformio ar wahân i’r bar. Mae ganddyn nhw staff wrth y drws ac yn y bar sydd wedi’u hyfforddi.

Wel, er eich bod chi’n codi tâl am weld y ddrama ’dw i’n meddwl y gallai’r grŵp ieuenctid gael un Gymeradwyaeth Corff o Bersonau.

Trwydded ydy hon sy’n berthnasol i’r plant i gyd sy’n perfformio.

Mi anfona’ i ychydig o wybodaeth atat ti.





# Nodiadau ar gyfer gwneud cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau

**Polisïau**

*Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhedeg y clwb yn dda a bod eich polisïau i'r funud.*

- Rydyn ni'n gofyn am eirdaon, ac am gael gweld polisïau amddiffyn plant a thystysgrifau DBS.

**Amseroedd**

*Gwnewch yn siŵr bod eich amseroedd yn dilyn y rheolau.*

- Rhaid i blant dan 9 oed fod adre erbyn 10 o'r gloch y nos a rhaid i blant dan 16 oed fod adre erbyn 11 o'r gloch.
- Dydy plant dan 16 oed ddim yn cael perfformio nac ymarfer am fwy na phum awr y dydd.
- Dydy plant dan 16 oed ddim yn cael bod yn y man ymarfer neu berfformio am fwy na 9.5 awr i gyd.

**Hebryngwyr**

*Bydd angen ichi fod â hebryngwyr i gael y gymeradwyaeth.*

- Dydy dau oedolyn ar gyfer 24 o blant ddim yn ddigon.
- Mae gennym ni fanylion cyswllt ar gyfer hebryngwyr sydd â thrwydded.

*Hefyd, ar gyfer ein cofnodion, rhowch wybod inni sawl gwaith y mae'r bobl ifanc wedi perfformio yn ystod y chwe mis diwethaf. Ddim ar gyfer y Gymeradwyaeth Corff o Bersonau ydy hyn.*

- Mae'n rhaid inni amddiffyn lles plant a phobl ifanc.

# ★ Teledu



Helô, Lennard ydw i. Fi ydy’r swyddog trwyddedu.



Helô ’na Lennard, Pete ydw i. Fi ydy cynhyrchydd y sioe. Sut alla’ i helpu?

’Dw i angen ychydig mwy o wybodaeth am eich cais am drwydded.

Dim problem. Ein prif weithredwr sy’n gyfrifol am y trwyddedau.

Ie, mi welais i hynna. Ond, yr unigolyn sy’n gyfrifol am les y plant sy’n gorfod gwneud y cais. Y cynhyrchydd neu’r cyfarwyddwr ydy hwnnw fel rheol.

’Dych chi wedi gwneud cais am drwyddedau ar gyfer nifer o blant rhwng 12 a 16 oed. ’Dw i jest eisiau gwybod mwy am y ffilmio yn y nos a’r golygfeydd lle mae yna ‘fygythiadau a pherygl’.

Iawn, mae’r sgript yn nodi bod y plant i gyd yn wynebu bygythiadau ar y sgrin ac maen nhw yn y golygfeydd sy’n cael eu ffilmio yn y nos.

Mae Tim, sy’n 12 oed, a Jess, sy’n 15 oed, yn actio fel pe baen nhw’n boddi. Ond mae’r trefniadau diogelwch i gyd yn eu lle a fyddan nhw ddim yn wynebu unrhyw risg go iawn.

Mae prifathro’r plant wedi cytuno. Ond, ’dw i ddim yn siŵr os ydy o’n gwybod eu bod nhw’n gweithio yn y nos neu fod hyn yn digwydd yn ystod y tymor ysgol.

Diolch Pete.

Felly mi fydd yn rhaid i’r cais fod yn eich enw chi.

Mi anfona’ i ychydig o nodiadau draw ar gyfer y cais newydd.





# Gwneud cais am drwydded

**Gwneud cais**

Gwnewch y cais newydd yn eich enw chi.

- Rhaid i'r cais fod yn enw'r unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles y plant.

**Gwybodaeth**

Gwnewch yn siŵr bod eich gwaith papur i'r funud a'ch bod chi'n anfon popeth angenrheidiol atom ni.
Allwch chi esbonio manylion y ffilmio yn y nos hefyd?
Mae angen inni gael eich asesiadau risg hefyd.

**Amseroedd**

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dilyn y rheolau ynglŷn â phlant yn gweithio yn y nos.

- Ar ôl gweithio dwy noson un ar ôl y llall, dydyn nhw ddim yn cael gweithio eto yn y nos am saith diwrnod arall.

**Hebryngwyr**

Gwnewch yn siŵr bod gan y plant hebryngwyr i'w cadw nhw'n ddiogel.
Mae gennym ni restr o hebryngwyr sydd wedi'u cofrestru.

# Sioe realiti chwaraeon



Helô, Rachel yr ymchwilydd ydw i. Mi faswn i'n hoffi siarad efo chi am sioe realiti 'dyn ni'n ei ffilmio efo ysgolion.



Iawn, be' ydy'r sioe?

Cystadleuaeth chwaraeon lle mae cystadleuwyr yn cael eu dileu ydy hi.

Mae yna bedwar tîm o ysgolion lleol. Mae'r ysgol sy'n ennill yn mynd trwodd i'r rownd derfynol genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae hyn yn golygu bod y dysgwyr yn aros yn y ganolfan hyfforddi ranbarthol am bum niwrnod.

Y drefn ydy y bydd yna wyth dysgwr ym mhob tîm (pedair merch a phedwar bachgen rhwng 11 ac 14 oed).

Mi fydd yna gymysgedd o gampau ar y maes ac yn y pwll. Mi fydd rhai campau i fechgyn, rhai i ferched a rhai yn gymysg.

Yr ysgol sy'n penderfynu pwy sy'n cymryd rhan. Ni sy'n penderfynu pa gampau fydd yn cael eu cynnwys yn y sioe.

Mi fydd gennon ni hefyd ddarn ar gefndir 'bywyd gartref' rhai o'r dysgwyr. Fyddwn ni ddim yn eu dangos nhw i gyd. Mae'n dibynnu ar ba ysgol sy'n ennill a pha mor bell y mae'r unigolion yn mynd yn y gystadleuaeth.



Ydych chi'n eu talu nhw?

Dydy'r plant ddim yn cael eu talu. Ond mae yna dlws i'r tîm buddugol. Mae'r ysgol fuddugol yn cael offer chwaraeon gwerth £1,000 hefyd.

Diolch yn fawr am yr wybodaeth. Mi fydda i'n ymchwilio ymhellach i'ch cwmni cynhyrchu ac mi anfona' i ychydig o nodiadau ynglŷn â be' sy'n rhaid ichi ei wneud.



# Nodiadau wrth ddewis beth i wneud cais amdano

**Trwyddedau**

Edrychwch i weld a oes angen ichi wneud cais am drwydded.

- Bydd yn rhaid ichi wneud cais os ydy'r cyfweliadau am gefndir y plant yn cael eu cyfarwyddo neu os oes yna sgript.

**Cymeradwyaeth Corff o Bersonau**

Edrychwch i weld a allwch chi wneud cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau.

- Gallwch chi wneud hyn os nad oes unrhyw un yn colli amser o'r ysgol a bod yr athrawon yn gofalu am y plant o'u hysgolion nhw eu hunain.

**Cadw'n ddiogel**

Dywedwch wrthym ni sut rydych chi'n bwriadu gwneud y 'straeon bywyd' yma.

- Allwch chi ddim rhoi'r plant mewn risg o gael eu bwlio neu o deimlo'n annifyr.

**Hebryngwyr**

Gwnewch yn siŵr bod yna ddigon o hebryngwyr.

- Mae angen i'r plant fod yn ddiogel a theimlo bod cefnogaeth iddyn nhw pan maen nhw oddi cartref.

**Asesiadau risg**

Gwnewch yn siŵr bod pob asesiad risg i'r funud.

- Mae'n rhaid i'r rhain edrych ar bethau fel mannau chwaraeon, effaith ffilmio a chyfweld.

**Amseroedd**

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dilyn y rheolau i gyd ynglŷn â'r terfynau amser.

- Mae'n rhaid i fanylion yr amseroedd gynnwys amser yn ffilmio, amser ar y maes chwaraeon, amser yn paratoi i gystadlu ac amser wedyn yn cael eu gwynt atyn nhw.

**Cael egwyl**

Gwnewch yn siŵr bod y plant i gyd yn cael cyfnodau egwyl iawn.

**Llety**

Gwnewch yn siŵr bod y llety'n ateb anghenion y plant.

- Rhaid i swyddog trwyddedu wirio hyn.

**Addysg**

Gwnewch yn siŵr bod y plant yn cael addysg tra'u bod nhw oddi cartref, oni bai ei fod yn ystod gwyliau'r ysgol.

**Cydweithio**

Dywedwch wrthym ni ym mha ardaloedd eraill o'r wlad neu ym mha siroedd rydych chi'n bwriadu ffilmio.

# Diolch!



Gobeithio y bydd yr enghreifftiau yma'n gwneud i bobl feddwl am gynllunio a chadw perfformwyr ifanc yn ddiogel.



I gael mwy o wybodaeth:
gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-young-performers-safe/?skip=1&lang=cy



Mae gan y fersiwn lawn o'r ddogfen yma lawer o ffurflenni a rhestrau gwirio i helpu pobl i gynllunio perfformiadau. Mae hi ar gael yma:
gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-young-performers-safe/?skip=1&lang=cy



# Hebryngwyr

**Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel**



Helô, swyddogion trwyddedu ydyn ni. ’Dyn ni’n gwneud yn siŵr bod perfformwyr ifanc yn cael eu cadw’n ddiogel.



Weithiau ’dyn ni’n penderfynu bod angen i berfformiwr ifanc gael hebryngwr. Mae hebryngwyr yn gofalu amdanoch chi pan ’dych chi’n perfformio, os dydy’ch rhieni/gofalwyr ddim yn gallu gwneud hynny.



**Dylai’ch hebryngwr:**

- eich cefnogi chi
- ochri â chi
- bod yn eiriolwr drosoch chi a dadlau dros eich hawliau
- bod â rhifau cyswllt fel ei fod yn gallu rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddo
- gwybod beth i’w wneud pan mae yna broblemau
- gofyn i weld copi o’ch trwydded perfformio os oes gennych chi un
- gwybod pa wybodaeth i’w rhannu a pha wybodaeth i beidio â’i rhannu
- gwybod am bob risg bosibl i’ch lles
- herio pobl os ydyn nhw’n ymddwyn neu’n siarad yn ddrwg efo chi.



**Dylai’ch hebryngwr ddim:**

- gadael ichi berfformio os ydych chi’n teimlo’n sâl
- eich gadael ar eich pen eich hun efo oedolyn arall (oni bai mai’ch rhiant/gofalwr neu’ch athro ydyn nhw)
- tynnu lluniau ohonoch chi
- casglu llofnodion neu ‘wirioni ar y sêr’
- anwybyddu ymddygiad drwg gan oedolion neu blant
- gadael ichi gael eich gwthio i wneud pethau dydych chi ddim eisiau eu gwneud
- rhegi neu wneud ichi deimlo’n anghyfforddus
- ysmygu, yfed alcohol neu fod wedi meddwi pan mae’n gofalu amdanoch chi
- gwisgo dillad neu ymddwyn mewn ffordd sy’n anaddas i’r gwaith sydd ganddo i’w wneud.

ISBN digidol: 978 1 4734 9138 0
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2017
WG31153